# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

Rhagfyr 2025 – Cyfrol 11 – Rhifyn 3

# Mae'r Nadolig yn dod!

## Llan Llanast



Yn ein sesiwn fis Tachwedd dysgon ni am yr Adfent, sy'n dechrau ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae'n nodi dechrau cyfrif y dyddiau at y Nadolig. Rydym yn dechrau agor ein calendrau Adfent ar ddydd cyntaf mis Rhagfyr. Yn yr Eglwys, rydym yn cynnau cannwyll newydd bob dydd Sul yn ystod yr Adfent hyd at Ddydd Nadolig, pan fyddwn yn cynnau'r gannwyll wen fawr yng nghanol ein torch Adfent i ddangos bod Iesu wedi'i eni. Gwnaethom ein calendrau a'n torchau Adfent ein hunain, ac fe wnaethom hefyd greu torch Adfent fawr sydd bellach yn yr eglwys. Gwnaethom hefyd felinau gwynt pabi gan ei fod yn Sul y Cofio.

Bydd ein sesiwn nesaf am 3.30pm ar y 14eg o Ragfyr ac mae croeso i bawb ymuno â ni wrth i ni ddathlu unwaith eto stori ryfeddol Nadolig cyntaf. Blant – cofiwch ddod ag oedolyn i rannu'r hwyl!

## Ymweliad Siôn Corn ar 4 Rhagfyr

Unwaith eto eleni bydd Bwrdd Crwn Dinbych yn trefnu i Siôn Corn ddod o gwmpas yr ardal ym mis Rhagfyr. Bydd o'n dod nos Iau, 4 Rhagfyr ac yn galw ym Maes Tyrnog am 6.45pm neu ychydig wedi hynny, ac ym Maes Clwyd tua 7 o'r gloch, cyn mynd yn ei flaen i Aberchwiler a Bodfari.

Byddwch yn gallu dilyn taith Siôn Corn ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Bwrdd Crwn Dinbych. Mae amserlen Santa yn reit lawn felly dim ond yn y mannau hyn y bydd yn aros, felly ewch i'w weld. Bydd gwirfoddolwyr y Bwrdd Crwn yno i helpu ac yn casglu cyfraniadau at elusennau lleol.

# Newyddion y pentre

Croeso i Lucas Pedley sydd wedi dod i fyw i Rydyrarian, ac i Charlotte Howard i Neuadd Cerrigllwydion.

Rydym yn falch o glywed bod y Parch. Sam Quilty gartref ar ôl ei chyfnod yn yr ysbyty, a bod Winnie Wilson yn gwella ac yn ei hôl yn gwerthu tocynnau raffl!

Pob dymuniad da i Aeron, Gader Goch ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 oed.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu Dre Goch Isaf yn eu profedigaeth lem – Gwen wedi colli ei brawd John Wynne Davies, Fferm Trelan, Cilcain.

Llongyfarchiadau calonnog i Gwydion a Llinos Tŷ Capel y Dyffryn ar enedigaeth merch fach – Mabli Fflur, chwaer fach i Twm.  Dymunwn wellhad buan i Llinos yn sgil triniaeth ychwanegol.

Daeth nifer dda ynghyd i wasanaeth Sul y Cofio yn yr eglwys. Ymhlith eraill, gosodwyd torch gan y Cynghorydd Jane Borthwick ar ran y Cyngor Cymuned. Yn absenoldeb y Cynghorydd Merfyn Parry, gosododd Ethan Plumb dorch Cyngor Sir Dinbych (llun isod. Casglwyd £197.40 yn y gwasanaeth tuag at apêl y Lleng Brydeinig Frenhinol.



# Codi arian




Rydym yn hynod o falch o Theo Vaughan a gyflwynodd siec am £1655.20 i aelodau pwyllgor Dyffryn Clwyd o Cancer Research UK. Fe gododd hyn drwy drefnu twrnamaint dartiau i gefnogi ei fam, Emma, sy'n cael triniaeth ar ôl cael gwybod bod canser y fron arni. Mae Theo yn 16 oed, yn aelod o academi dartiau ac yn chwarae dros Glwyd. Bydd ei gyfraniad wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith ymchwil yng Nghymru. Mae Emma'n diolch yn fawr i bawb am y gefnogaeth iddi a'r geiriau caredig. Hefyd yn enwedig i Kayleigh a Heather a fu'n gefn iddi pan oedd rhaid iddi wynebu colli ei gwallt. Mae Emma'n edrych ymlaen at ganu'r gloch ar 6 Ionawr.



# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Grŵp crefftau | 10am |
| | Trefoil Guild | 2pm |
| Maw 2il | Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 7pm |
| Gwe 5ed | Grŵp cwiltio | 1.30–3.30pm |
| Llun 8fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 9fed | Tuesday Club | 2–3pm |
| Mer 10fed | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 15fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 16eg | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Iau 18fed | Gweithdy crefftau | 6–9pm |
| Sad 20fed | Gweithdy crefftau | 9–canol dydd |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| Sul 7 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 14 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast: Neuadd y Pentre |
| Sul 21 | 15.00 | Gwasanaeth Cristingl: Neuadd y Pentre |
| Mer 24 | 16.00 | Gwasanaeth y preseb |
| Iau 25 | 10.00 | Cymun Bendigaid y Nadolig |
| Sul 28 | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Llanrhaeadr |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 3ydd | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 4ydd | Cyfarfod agored yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Llwybr Arfordir Cymru | 6.30-9pm |
| Sad 6ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 8ed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 9fed | Clwb Garddio | 7–9pm |
| Mer 10fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 13eg | Parti preifat | 10.30am–2pm |
| Sul 14eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 15fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 16eg | Cyngerdd yr ysgol | 5.30–7.30pm |
| Mer 17eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sul 21ain | Gwasanaeth Cristingl | 5pm |




# Capel Dyffryn

**Gwasanaethau mis Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| 07/12 | 10.00 | Naws y Nadolig |
| 14/12 | **4.00** | Gwasanaeth Nadolig y Plant |
| 21/12 | 10.00 | Cyfarfod Gweddi |
| 28/12 | 10.00 | Oedfa'r Fro |

Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi ar 8 Tachwedd – gwnaed elw o £475.

**Y Gymdeithas**

Nos Lun, 3 Tachwedd croesawyd y gŵr gwadd, Nic Parry, gan Aeron. Cawsom orig ddifyr dros ben yn llawn hwyl wrth iddo olrhain ei hanes fel sylwebydd pêl-droed ar y radio a theledu. Diolchwyd gan Rod.

Nos Lun 17 Tachwedd, yn anffodus methodd y gŵr gwadd a chyrraedd oherwydd gwrthdrawiad â charw yn Nhrefnant, ar y ffordd i'r Gymdeithas! Fodd bynnag, cafwyd stondin Goeden Nadolig a chyfle i gymdeithasu dros baned. Llywyddwyd gan John Huw.

# Trefoil Guild

Yn y cyfarfodydd diwetha fe gawson ni sgwrs am y Cynhaeaf gan Juliet Fraser ac arddangosfa o osod blodau gan Dorothy Roberts. Casglwyd nwyddau ar gyfer y banc bwyd ac enillodd rhai o'r aelodau drefniadau blodau'r Nadolig mewn raffl. Cafodd aelod newydd groeso cynnes.

Gwnaed trefniadau ar gyfer cinio Nadolig yn y Griffin. Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr.

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Rydym yn hynod o falch o ddweud bod y grŵp wedi dychwelyd i Neuadd y Pentre, Llandyrnog i gael ein cyfarfodydd ar nos Fawrth ola'r mis am 7 o'r gloch.

Daeth nifer dda i'n cyfarfod ym mis Hydref gydag aelodau'n dod â'u telesgopau ac yn eu gosod ym maes parcio'r neuadd i edrych ar yr awyr. Roedd y cyhoeddiadau yn cynnwys sôn am greu ein grŵp WhatsApp newydd a'n tudalen Facebook, yn llawn gwybodaeth a chynghorion defnyddiol. Wedyn cafwyd arddangosfa o'r hyn a welwyd wrth edrych ar yr haul a chafodd aelodau'r cyfle i glywed am delesgop Newton 200mm newydd un o'n haelodau, ac am rai eraill hefyd. Rhoddodd rhai aelodau adroddiad ar weld y Gomed Lemon o Ben y Gogarth, a chafwyd trafodaeth am y comet 3I ATLAS rhyngalaethol, gyda lluniau a dynnwyd o blaned Mawrth. Cafodd aelodau eu hannog i edrych ar yr ap GO STARGAZING, sy'n dangos bod neuadd bentre Llandyrnog a safleoedd lleol a chenedlaethol eraill ar restr o safleoedd gwych i edrych ar y sêr.

Rhoddwyd teyrnged i Clwyd, un o'n cyd-aelodau a fu farw'n ddiweddar. Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Seryddiaeth Gogledd Cymru.

Yn 2026 bydd partneriaeth yn cael ei chreu rhyngom ni ac Amgueddfa Dinbych, pan fyddwn yn gobeithio rhoi rhaglen ddiddorol iawn o sgyrsiau ynghyd, gan ddechrau gyda phrosiect am Isaac Roberts, ei fywyd, a'i waith arloesol mewn tynnu lluniau sêr. Cafodd ei eni a'i fagu yng Ngroes Bach, cwta ddwy filltir o Ddinbych ac mae'n arwr lleol go iawn.

Bydd ein cyfarfod ym mis Rhagfyr yn ddigwyddiad cymdeithasol yn Llangynhafal. Cadwch lygad am fanylion ar Facebook, hysbysebion, neu anfonwch neges at 07811 117059 os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni. Daliwch ati i edrych ar i fyny.

# Siop Llandyrnog

Rydyn ni wedi dechrau hel casgliad bach o anrhegion a chynhyrchion Nadolig i'ch helpu gyda'ch siopa am anrhegion. Cofiwch y gallwch chi gefnogi'r swyddfa bost drwy ddefnyddio clicio a chasglu, neu fel man gollwng parseli Amazon. Bydd hyn yn cadw parseli'n ddiogel yn y tywydd anwadal yma hefyd. A dewch â'ch cardiau Dolig i bostio dros y cownter – mae hyn hefyd yn hwb i'r swyddfa bost.






Mae ein horiau agor arferol yn yr hysbyseb isod, ond sylwch y bydd y swyddfa bost yn cau am 2.30 y pnawn noswyl y Nadolig, a'r siop am 3 o'r gloch. Bydd y ddau wedi cau 25 a 26 Rhagfyr, ac wedyn yn agor eto ddydd Sadwrn, 27 Rhagfyr ar yr oriau arferol.

Bydd y swyddfa bost yn cau eto am 2.30 y pnawn Nos Galan, a'r siop am 3 o'r gloch. Bydd y ddau wedi cau 1 Ionawr. Wedyn bydd pob peth fel arfer.

Mae bwrdd, staff a gwirfoddolwyr y siop yn diolch am eich cefnogaeth wych dros y flwyddyn ddiwetha ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Dda i chi.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Chwilota am drysor yn Llangwyfan

Erbyn hyn, mae gweld grŵp o bobl yn chwilota am fetel yn y caeau lleol yn beth eithaf arferol. Mae'r rhestr o'r pethau maen nhw wedi'i ddarganfod hyd yn hyn yn ddiddiwedd – o arfau'r oes efydd i dlysau Rhufeinig, darnau arian o gyfnod Elisabeth, Siôr a Fictoria, i arteffactau'r Ail Ryfel Byd (bwledi Spitfire! Yn Llangwyfan!) Felly, pan ges i wahoddiad i ddod draw atyn nhw un bore Sul, roeddwn i wedi cyffroi wrth gael cyfle i weld sut roedd y cyfan yn gweithio.

Fe gerddais i lawr i'r cae y tu ôl i'r eglwys a chael fy synnu i weld dros 60 o bobl â phennau gliniau mwdlyd yno. Gwelais eu 'bwrdd canfyddiadau' lle'r oedd y pethau gorau yn cael eu gwirio a'u rhestru. Hefyd roedd dwy fwced nesaf ato – un ar gyfer metel sbwriel a'r llall ar gyfer cyllyll a ffyrc a llwyau! Mae'n debyg bod ffyrc a llwyau yn dod i'r golwg yn aml yma – roedd pob claf yn yr hen Sanatoriwm yn cael eu cyllyll a ffyrc eu hunain i atal y diciâu rhag croesheintio'r cleifion. Roedd y staff a'r cleifion yn cael ymarfer corff yn y caeau hyn ac yn gollwng pethau drwy'r amser. Er fy mod i wedi cael fy mhigiad BCG yn erbyn y diciâu pan oeddwn i yn yr ysgol, roeddwn i'n betrus iawn yn edrych i mewn i'r bwcedaid o gyllyll a ffyrc, yn meddwl tybed a oedden nhw'n heintus!

Wedyn cefais fy nghyflwyno i Day Moss a ddaeth o hyd i 15,000 darn o arian Rhufeinig yn ddiweddar – mae'n bosib mai dyma'r celc Rhufeinig mwyaf erioed mae neb wedi cael hyd iddo yng Nghymru. Roedd Day eisoes wedi bod ar y newyddion lleol a chenedlaethol yr wythnos honno, ac roedd criw teledu o ITV yn dod i'w gyfweld yn Llangwyfan. Doedd o ddim am i neb wybod ble cafodd o hyd i'r darnau arian (y cyfan a oedd ganddo i'w ddweud oedd 'ddim yma!'). Roedd wedi pryderu gymaint am rywun yn dwyn y darnau arian cyn iddo eu rhoi i arbenigwyr, roedd wedi cysgu yn ei gar



gyda nhw am dridiau. Gallai llawer rhagor o drysorau fod ar y safle hwnnw 'rywle yng Ngogledd Cymru' ac mae perygl y bydd chwilotwyr heb awdurdod (yr enw arnyn nhw yw 'hebogiaid y nos') yn cyrraedd yno gynta – felly mae'n gyfrinachol iawn ar hyn o bryd.

Wedyn ces i gyfle i chwilota – rhoddodd aelod o'r grŵp, Paul Binns, gynnig i mi gael tro ar ei offer. Roedd yn waith blinedig ar ôl ychydig (ac roedd hwn yn chwilotydd ysgafn, mae'n debyg) ond yn ymarfer corff da. Fe gawson ni ychydig o synau i ddangos bod rhywbeth o dan y pridd, a rhoddodd Paul raw o siâp arbennig i fi a dangos y ffordd gymeradwy o balu twll (fel eich bod yn gallu rhoi'r dywarchen yn ôl drosto). Wedyn dangosodd sut i sganio'r pridd a'r twll gyda chwilotydd llai i ddod o hyd i'r trysor. Wrth gwrs, ches i ddim hyd i ddim byd, heblaw am '*Moo Tube*' a ddefnyddir i ddosio gwartheg (doeddwn i erioed wedi clywed am ffasiwn beth). Mae'n debyg bod y rhain yn dod i'r golwg yn aml ar ffermydd da byw. Aeth hwnnw i'r fwced sbwriel (mae gadael metel sbwriel yn y cae i rywun arall ei godi yn beth gwael – mae tipyn o foesgarwch yn perthyn i'r

# Chwilota am drysor: parhad

gweithgaredd). Mewn enghraifft o 'dyma beth gallech chi fod wedi'i ennill', dangosodd Paul i mi ffibwla Rhufeinig roedd wedi cael hyd iddo'n gynharach – math o froetsh a oedd yn cau clogyn neu sgarff. Tybed pwy oedd wedi ei golli? A ddaeth hi i'n caeau i chwilio amdano ond methu, ac o ganlyniad y ffibwla yn aros yn y pridd am filoedd o flynyddoedd nes i Paul ei godi?





Yr wythnos wedyn, roeddwn i'n gallu dangos fy ngwybodaeth eang am chwilota am fetel (!) mewn ymweliad ag Amgueddfa Lerpwl. (Wel, roeddwn i'n gallu dweud 'ffibwla ydy hwnna' heb i neb fy nghywiro, beth bynnag). Roedd fy ffrindiau a mi yn ymweld ag arddangosfa o'r trysorau pwysicaf a ganfuwyd yng Nghymru a Swydd Caer. Roedd hyn yn cynnwys Clogyn Aur yr Wyddgrug – mantell aur a ddaeth i'r golwg yn 1833 ar gladdfa Bryn yr Ellyllon yn yr Wyddgrug. Fel arfer, mae'n cael ei gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain ond roedd wedi cael ei fenthyca ar gyfer yr arddangosfa hon. Roedd yn brydferth iawn, ond roedd hi'n drist iawn sylweddoli bod tlysau eraill ac esgyrn yr un a gafodd ei gladdu yno naill ai wedi'u hanwybyddu neu eu rhannu. Ar y pryd, roedd deddfau trysor ddim ond yn ymwneud ag 'aur neu arian wedi'u cuddio gyda'r bwriad o'u nôl' felly nid oedd yn cynnwys eitemau mewn safleoedd claddu. Heddiw mae'r Ddeddf Trysorau'n amddiffyn darganfyddiadau o'r fath, ac mae modd cofnodi popeth yn gywir.

Gan ystyried yr holl eitemau sydd eisoes wedi dod i'r golwg o gaeau Llangwyfan, tybed beth arall sydd o dan ein traed? Pwy a ŵyr, efallai cyn bod hir bydd arddangosfa o drysorau Llangwyfan. Y cyfan sydd ei angen arna i yw chwilotydd, ac un o'r rhawiau hynny o siâp arbennig. A llawer iawn o lwc.

*Gwen Butler*



# Hanesion Hazel



Wel, am arddangosfa wych rydyn ni wedi'i gael yr hydref yma gyda holl liwiau dwys y dail yn troi'n oren tywyll, coch ac aur, yn goleuo golygfeydd ddiwedd mis Tachwedd o'n cwmpas ni yn y dyffryn. Y tymheredd yn gostwng a dyddiau byrrach sy'n achosi hyn, gyda phlanhigion yn cael llai o olau haul. Mae llai o olau haul yn gwneud i'r cloroffyl dorri lawr, gan ddatgelu'r pigmentau newydd lliwgar oddi tano, a nifer o liwiau cyfarwydd, cyfoethog.



Rhowch gynnig ar rywbeth gwahanol eleni a chaewch eich llygaid. Anadlwch i mewn a byddwch yn sylwi ar aroglau ysgafn yn dod o'r dail sydd wedi disgyn, aroglau pridd. Gydag aroglau coed yn llosgi o goelcerth mewn gardd, fe gewch chi naws berffaith yr hydref.

Yn ddiweddar, rydw i wedi sylw ar gân dreiddgar robin goch pan fydda i yn fy swyddfa. Mae'n datgan ei awdurdod dros ei diriogaeth yn y maes parcio i unrhyw un sydd â diddordeb ynddo. Gyda'i frest allan ac yn dal ei ben yn uchel, mae'n canu serenâd i mi gyda chwibanu gwych a llawer o nodau byrlymus. Neu a ydy o'n ceisio cael gwared ar dresbaswyr anweledig? – dwi ddim yn siŵr. Mae'r robin goch yn canu drwy'r flwyddyn ac yn un o'r adar cynharaf i ymuno â chôr y bore bach, ond rydyn ni'n ei glywed yn fwy clir yr adeg hon o'r flwyddyn gan mai'r robin ydy un o'r ychydig adar sy'n canu yn y gaeaf.

Mae pawb wrth eu bodd gyda'r robin goch ac yn ei gysylltu â'r Nadolig. Yn aml mae ei lun ar gardiau ac addurniadau Nadolig. Rhoddodd pobl oes Victoria yr enw 'robin goch' ar bostmyn oherwydd eu siacedi llachar. Dwi ddim yn siŵr a fyddai gwisg ein postmyn heddiw'n cydfynd â hyn, oherwydd mae fy mhostmon i'n gwisgo trywsus byr 365 diwrnod y flwyddyn, beth bynnag yw'r tywydd. Mae e'n dod at y tŷ'n llechwraidd yn ei fan drydan ddistaw ac yn rhoi post sothach yn fy mlwch llythyrau. Ta waeth, 'nôl â ni at y robin goch go iawn.

Mewn chwedloniaeth, roedd cysylltiad rhwng y robin goch â phresenoldeb ysbryd ac enaid y meirw, a'r dywediad yw, '*robins appear when loved ones are near*'. Maen nhw'n symbol o wydnwch ac atgof, gyda'r robin yn ymddangos mewn angladdau i ddangos parch. Ond, mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n cysylltu'r robin â thymor y Nadolig, a fydd ar ein gwartha ni'n rhy fuan o lawer. A sylwoch chi fod y Nadolig wedi cyrraedd ym mis Medi eleni?– wel, mi wnaeth yn Home Bargains.

Mae cysylltiad hir gan y robin goch â Christnogaeth, gyda disgrifiadau ar sut y gallai fod wedi cael ei frest goch. Y cyntaf yw bod y robin goch wedi llosgi'i hun ar dân roedd wedi chwythu arno i geisio cadw'r baban Iesu yn gynnes yn y preseb. Felly cafodd pob robin y frest goch fel arwydd o'u hymroddiad i Dduw. Mae'r ail yn sôn am y robin goch yn bresennol pan oedd Iesu Grist yn cael ei groeshoelio. I leddfu poen a dioddefaint Iesu, mae'n canu cân brydferth. Wedyn mae'r gwaed o goron Iesu yn diferu ar frest y robin, lle mae'n dal i fod hyd heddiw i ddangos tosturi'r robin goch.

Beth bynnag rydych chi'n ei gredu, mae croeso mawr i'r robin goch yn ein gerddi, yn llonni'n dydd â'i natur gyfeillgar a swynol. Felly edrychwch ar y robin goch ar eich cardiau Nadolig a meddyliwch am yr hyn y mae'n symbol ohono – gobaith ac adnewyddu. Nadolig llawen iawn i chi a blwyddyn newydd dda.

Hazel

# Cefnogi cymunedau, adeiladu'r dyfodol ym Mharc Highfield MHC

Yn MHC, rydyn ni'n gymuned. Ein hymroddiad i gyflogi pobl leol yw un o'n ffyrdd i barhau i gynnal a chryfhau'r gymuned honno. Ar draws MHC, rydyn ni'n falch o ddweud ein bod yn cyflogi 690. Nid rhif yn unig ydy hwn, mae'n cynrychioli cannoedd o unigolion ymroddgar sy'n gwneud gwahaniaeth bob dydd ar draws ein gwasanaethau.

Mae llawer iawn o'n tîm yn gweithio ym Mharc Highfield, lle rydyn ni'n cyflogi 395. Mae'r unigolion hyn yn helpu i wneud Parc Highfield yn ddarparwr gwasanaeth o safon uchel, ond hefyd yn rhan hanfodol o'r economi leol. Mae 192 o staff Parc Highfield yn byw yma yn Sir Ddinbych. Dyna bron iawn hanner tîm Parc Highfield yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu cymuned leol, nid dim ond drwy eu gwaith gydag MHC, ond drwy wario arian yn lleol, yn cefnogi ysgolion lleol, a bod yn rhan o wead cymdeithasol yr ardal.

Mae'r canolbwyntio lleol hwn yn adlewyrchu bwriad parhaol MHC i fod yn rym cadarnhaol yn y mannau lle rydyn ni'n gweithio. Drwy hurio pobl leol, rydyn ni'n atgyfnerthu ein cysylltiadau cryf â'r bobl a'r lleoedd sy'n gwneud i'n gwasanaethau ffynnu, yn ogystal â chyfleoedd gwerthfawr am waith.

Gyda bron hanner ein tîm ym Mharc Highfield yn byw yn Sir Ddinbych, mae gweddill y 203 o aelodau staff yn dod â'u doniau a'u hymroddiad o ardaloedd cyfagos, ac rydyn ni'r un mor falch ohonyn nhw. Mae nifer o'r rhain yn teithio bob dydd o bell ac agos, yn dewis bod yn rhywbeth ystyrlon yn MHC. Mae'r dewis hwnnw'n dweud cyfrolau am eu hymroddiad i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi, ac i'r gwerthoedd rydyn ni'n eu rhannu. Boed yn byw 5 milltir o Barc Highfield neu 55 milltir, mae pob aelod o'n tîm yn chwarae rhan hanfodol yn gwneud MHC yn safle o dosturi, cefnogaeth a rhagoriaeth. Mae eu teithiau'n adlewyrchu'r enw da rydyn ni wedi'i feithrin a'r math o weithle mae pobl am fod yn rhan ohono, waeth o ble maen nhw'n dod.

Diolch yn fawr iawn i bob aelod o'n tîm, p'un ai a ydych chi newydd ddechrau neu wedi bod gyda ni ers blynyddoedd am fod yn rhan o'r stori. Rydych chi'n ein helpu ni i adeiladu rhywbeth mwy, nid dim ond yn ein helpu ni i ddarparu gofal.



Mae *Llais Llandyrnog* wedi cael ar ddeall bod aelodau o staff MHC wedi cael eu cydnabod yng Ngwobrau Gofal Cymru 2025 ac am eich llongyfarch chi i gyd (o'r chwith): Gemma Jennings – gwobr aur am Ragoriaeth mewn Iechyd Meddwl a Lles; Michael Rawlins – gwobr arian yn y Wobr am Wasanaeth Eithriadol, a Leah Davies – gwobr aur mewn arwain ymarfer mewn anableddau dysgu.

# Rysáit

**Pastai sbarion cinio Nadolig**
1 llwy fwrdd o olew olewydd neu had rêp, a chnepyn o fenyn
1 nionyn mawr, wedi'i dorri'n hanner a'i sleisio
*Pigs in blankets* sy'n weddill o'r cinio (beth yw lluosog 'soch mewn sach'?!)
2 lwy de powdr mwstard melyn
50g blawd plaen
1 ciwb isgell cyw iâr, wedi'i falu
150ml gwin gwyn
500ml isgell cyw iâr neu grefi sy'n weddill
6 pelen o stwffin
300g twrci wedi'i goginio, wedi'i dorri'n fân
1 llwy fwrdd mwstard grawn cyflawn
100g crème fraîche
Ychydig o bersli, wedi'i dorri'n fân
800g o datws rhost
20g caws Cheddar, wedi'i gratio

**Dull**
Cynheswch y popty i 200°C/180°C ffan/nwy 6.
Cynheswch yr olew a'r menyn mewn dysgl fas sy'n addas i'w ddefnyddio mewn popty.
Ychwanegwch y nionyn a'i goginio am 10 munud dros wres cymedrol nes ei fod yn feddal iawn.
Ychwanegwch y powdr mwstard, y blawd, a'r ciwb isgell at yr olew a'r menyn am 1–2 funud, yna ychwanegwch y gwin gwyn. Berwch am 1 funud, a chrafwch waelod y ddysgl i gael y darnau blasus, yna ychwanegwch yr isgell.
Trowch y cyfan i wneud saws llyfn, ychwanegwch halen a phupur at eich dant, a berwch am 5 munud.
Torrwch y *pigs in blankets* a'r stwffin yn ddarnau bach ac ychwanegwch nhw at y saws gyda'r twrci, y mwstard, y crème fraîche a'r persli. Pan fydd yn berwi, tynnwch y ddysgl oddi ar y gwres.
Malwch y tatws yn eich dwylo dros y llenwad, yn ddarnau o feintiau amrywiol.
Sgeintiwch y caws drosto a'i bobi am 40 munud nes bod y tatws yn greisionllyd a'r llenwad yn byrlymu o gwmpas yr ymylon.

# Y Clwb Garddio

Daeth aelodau'r clwb garddio at ei gilydd ar nos Fawrth ddiflas a gwlyb. Disgrifiodd Mary Watkin Jones a'i gŵr eu mordaith yn ddiweddar pan oedden nhw wedi mwynhau ymweld ag Amsterdam, gardd Abaty Tresco a gardd Monet. Tiwlipau oedd y blodau amlycaf wrth gwrs, yn yr Iseldiroedd, a lluniau o erddi Tresco yn dangos planhigion suddlon – *succulents* – sy'n ffynnu yn yr hinsawdd gynhesach. Mae gardd Abaty Tresco yn ardd isdrofannol ar Ynysoedd Scilly, gyda dros 4,000 o rywogaethau planhigion o bob man yn y byd yno. Gwelson ni luniau o Frenin Protea a Chrafanc y Cimwch, gwiberlys – *Echium* – glas, mynawyd y bugail pinc llachar, *Furcraea*, a *Strelitzia*. Mewn cyferbyniad, mae gardd Monet yn Giverny yn dirwedd sydd wedi'i ysbrydoli gan argraffiadwyr – *impressionists* – ac wedi'i rhannu'n ddwy, y *Clos Normand* a'r ardd ddŵr gyda'i dylanwad o Siapan. Diolch yn fawr i Mary am fynd â ni oddi wrth y noson dywyll ac oer ym mis Tachwedd i ardd gynnes yn yr haf.

Cafodd aelodau newydd groeso a mwynhaodd pawb luniaeth wedyn, a chyfle i drafod garddio a rhannu cynghorion a newyddion amdano.

Ddydd Sadwrn, 15 Tachwedd, cawson ni ein bore coffi cyntaf i godi arian ar gyfer y clwb i dalu am sgyrsiau yn 2026. Roedd planhigion a chacennau ar gael a raffl ardderchog (diolch i ferched y raffl – roedd hi'n hyfryd gweld Winnie yn ôl yn ei man arferol). Fe godwyd bron i £300 felly diolch o galon i bawb.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fawrth, 9 Rhagfyr yn ystafell is neuadd y pentref am 7 o'r gloch. Byddwn yn croesawu Graham Pickles o ganolfan arddio Greenfingers yn Ninbych a fydd yn rhoi cwis Nadoligaidd i ni. Gobeithiwn gael sesiwn holi ac ateb wedyn a mwynhau noson hwyliog. Os hoffech ymuno â'r clwb, dewch i'r cyfarfod neu anfonwch e-bost at LlandyrnogGardeners@outlook.com.

# Bryn yn gyrru Lambo

Does dim pall ar haelioni na dychymyg byw iawn pobl ifanc ein tŷ ni pan ddaw yn Ddolig. Y tro yma Ifan ddaru benderfynu ei bod hi’n bryd i Dad gael profiad gwahanol arall – does wybod be sydd tu mewn i’r bocs bach coch. Y tro yma, cyfle i ddreifio Lamborghini Superleggara ar drac Three Sisters ger Wigan.



Roeddwn i’n gwybod rywsut bod y bwystfil yma yn mynd i fod yn her. Mi fuaswn i wedi bod yn hapus iawn yn eistedd yn y car yn ffidlan efo’r sbardun ac yn gwrando ar y 2000 o gydrannau mewn harmoni perffaith – peirianneg ar ei gorau. Pan fyddwch chi’n teimlo cyhyrau rhan isaf eich coesau yn tinglan wrth ffidlan efo’r sbardun, rydych chi’n deall bod rhywbeth anhygoel ar fin digwydd!

Mi wnes i nodyn reit sydyn yn fy meddwl o drefn y dashfwrdd oherwydd roeddwn yn gwybod, unwaith y byddai’r anghenfil yma allan ar y trac, byddai’n rhaid canolbwyntio 100% ar fynd rownd mewn un darn. Roeddwn i wedi penderfynu – braidd yn ffôl, a chysidro’r tywydd (bwrw hen wragedd a ffyn), peidio talu’r hawliad am niwed i’r car. H.y. petawn i’n plygu’r car drud ’ma, mi fyddai’n rhaid i mi dalu’r £5K cynta. Dim pwysau, felly. Ond eglurodd fy hyfforddwr fod gennym reolaeth ddwbwl.

Mae ymuno efo’r trac yr un fath ag ymuno efo traffordd, ond ychydig yn gyflymach. Ffordd sicr o achosi llanast llwyr ydi trio ymuno ar 60 mya a cheir yn dod i’ch cyfarfod o leia ddwbwl y cyflymdra yna. Ond mae’r hyfforddwyr yn wych ac mi wnân nhw ddweud pryd mae’n ddiogel i ymuno â gweddill y ceir. Mae’r ddau ddrych hefyd wedi eu haddasu fel bod yr hyfforddwr yn cadw llygad ar y ceir eraill fel bod y gyrrwr yn gallu canolbwyntio ar y trac. Mae’r hyfforddwr yn dweud os oes rhywun yn mynd heibio, neu hyd yn oed yn pasio ar yr ochr i mewn. Mae hyn yn arferiad digon derbyniol ond yn deimlad anghyfforddus.

I newid gêr, mae padlau ar yr olwyn lywio ac mae’r hyfforddwr yn dweud pryd i wneud. Mae’r injan yma yn ei elfen yn cael refio nes mae’r nodwydd rywle o gwmpas y llinell goch. Ond mae’n rhaid bod yn barod am hyn a pheidio â gadael i’r sŵn darfu arnoch chi.

Mae’r hyfforddwr Carl yn fy arwain ar hyd y llinell gywir ac yn dweud wrtha i pryd i frecio – yn dyner. Oes, mae gan y car draed ond mae’r system frecio yn rhywbeth arall.

Roeddwn yn medru edrych ar y *speedo* mewn amrant – wrth ddod allan o gornel ar gyflymdra parchus oddeutu 70mya, fe saethodd i fyny i 120 – a digon o bwer ar ôl! Profiad brawychus, ond teimlad anhygoel.

Gan ei bod hi’n glawio’n drwm erbyn hyn a’r car yn dueddol o frathu wrth ddod allan o gorneli, gwell oedd ’nelu am adre. Ond am brofiad! Fyddwn i fyth yn medru fforddio car fel hyn (£75k am un go lew ac ychydig o dan £200k am un newydd) a hyd yn oed pe bawn i’n ennill y loteri, mae’n gar anymarferol ond yn ddarn o gelf beirianyddol ac yn andros o hwyl i’w ddreifio. Beth bynnag, mae yna ormod o dyllau yn y ffordd yn yr ardal yma – a does dim bachyn tynnu arno.

***Bryn Davies***

# Y Sámi

Yn ystod ein hymweliad diweddar â Norwy, cawsom brynhawn diddorol iawn yn cwrdd â phobl y Sámi. Nhw yw trigolion brodorol rhanbarth yr Arctig sy'n cwmpasu rhannau mwyaf gogleddol Norwy, Sweden, y Ffindir a Phenrhyn Kola yn Rwsia. Mae tystiolaeth archeolegol yn awgrymu bod hynafiaid y Sámi wedi byw yma ers oes ddiwethaf yr iâ – felly maen nhw wedi arfer â'r tywydd oer a llwm. Yn draddodiadol, roedden nhw'n bobl nomadig a oedd yn dibynnu ar hela a physgota cyn datblygu bugeilio ceirw fel eu prif fywoliaeth. Dros ganrifoedd lawer, fe wnaethon nhw wynebu gormes ddiwylliannol gan lawer o lywodraethau. Ond trwy eu penderfyniad fe lwyddon nhw i gael cydnabyddiaeth o'u hawliau, eu traddodiadau a'u hieithoedd (ie, ieithoedd).

Mae'r Sámi yn rhannu'r flwyddyn yn wyth tymor – mae hyn yn cydnabod y newidiadau manwl mewn golau a thymheredd. Maen nhw'n goroesi mewn tywyllwch llwyr am 2–3 mis yn y rhanbarthau mwyaf gogleddol.

Wrth gwrs, bugeilio ceirw yw conglfaen hunaniaeth y Sámi, ond erbyn heddiw dim ond lleiafrif sy'n gwneud bywoliaeth fel hyn. Mae gan y mwyafrif amrywiaeth eang o yrfaoedd, yn union fel unrhyw boblogaeth arall. Dywedwyd wrthym erbyn heddiw nad oes mwy na 500 o fugeiliaid llawn amser. Mae'r ceirw yn bwydo ar lystyfiant Arctig gwael felly mae'r niferoedd mae'r ardaloedd agored helaeth yn gallu eu cynnal yn gyfyngedig. Er gwaethaf hyn, roedd yn dda clywed bod rhai o'r boblogaeth iau yn gweld y brys i ddod yn fugeiliaid llawn amser, gan gynnal traddodiadau teuluol. Mae eu ceirw'n pori ardaloedd sydd fel arfer wedi'u diffinio'n gyfreithiol fel rhyw 50 milltir sgwâr ar dir comin. Mae gan bob ardal ei llywodraeth ei hun gydag aelodau bwrdd etholedig sy'n cydlynu meintiau buchesi a llwybrau mudo. Mae mudo yn dilyn cylch tymhorol rhwng porfa gaeaf a haf.

Yn y dyddiau a fu, byddai'r bugeiliaid yn dilyn y da byw trwy godi eu pebyll heb fod ymhell o ble roedd y ceirw yn crwydro. Heddiw dydyn nhw ddim wedi'u cyfyngu i ffordd o fyw mor nomadig ond maen nhw wedi adeiladu bythynnod pren cyfleus fel cartrefi dros dro ac yn eu rhannu, ac yn dilyn y ceirw fel gweithgaredd cymunedol ar feiciau cwad. Mae llawer o gymunedau Sámi yn dal i addasu trwy ddefnyddio coleri GPS, dronau ac eiriolaeth gyfreithiol i amddiffyn eu hawliau pori. Yn draddodiadol, mae'r praidd yn enfawr – sawl mil o geirw, wrth iddyn nhw fudo gyda'r tymor ar draws eu hen lwybrau arferol.

Cyn ein hymweliad, dywedwyd wrthym ni na ddylem ni byth ofyn, 'Faint o geirw sydd gennych chi?', oherwydd mae'n union fel gofyn, 'Pa mor gyfoethog ydych chi?' Y cwestiwn cyntaf a ofynnodd un ddynes yn ein grŵp ni oedd, 'Faint o geirw sydd gennych chi?' Cafodd ateb swta iawn!

Mae llawer o ddefodau cymunedol yn digwydd yn ystod bugeilio wrth farcio lloi neu ddidoli buchesi ac mae'r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu cysylltiadau cymdeithasol ac yn helpu i gynnal eu diwylliannau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn.

Mae ceirw yn ganolog i hunaniaeth y Sámi. Mae'r cig yn brif fwyd ac mae'r crwyn wedi'u lliwio yn ddillad cynnes ac esgidiau – yn draddodiadol gyda blaen yr esgid yn troi ar i fyny. Defnyddir y ffwr ar gyfer leinin ac i inswleiddio. Mae'r cyrn a'r esgyrn yn cael eu trin a'u defnyddio fel offer ac yn fwy diweddar, gyda dyfodiad twristiaeth, yn cael eu gwerthu fel anrhegion. Yn y gorffennol, roedd ceirw yn tynnu slediau ar draws yr eira, ond erbyn heddiw, mewn ceir eira mae'r rhan fwyaf yn teithio.

Dywedodd arweinydd ein taith ni fod pum

## Y Sámi: parhad

iaith Sámi wahanol, ieithoedd yr un mor wahanol i'w gilydd yn aml ag y mae'r Gymraeg o ieithoedd Gaeleg eraill. Mae'r iaith Sámi yn adlewyrchu gwydnwch a pha mor fregus yw'r iaith Gymraeg. Bellach mae tua 30,000 yn siarad pob un o ieithoedd Sámi. Gan fod pum iaith Sámi mae hyn yn creu problem i'w parhad, ond mae dygnwch y Sámi yn gorwedd mewn undod ar draws ffiniau ac adfywiad ar lawr gwlad. Mae teledu a chyfryngau Sámi yn profi cynnydd ar hyn o bryd gyda phartneriaethau a chynyrchiadau newydd yn ehangu ar draws y gwledydd Nordig. Yn ôl pob golwg, mae drama a gynhyrchwyd yn Norwy ac sydd wedi'i lleoli o fewn y gymuned Sámi yn boblogaidd iawn – yn debyg iawn i *Bobl y Cwm* ar S4C.

Roedd arweinydd ein taith yn ffermwr ceirw, yn ei bumdegau yn ôl pob tebyg, a Sámi oedd unig iaith ei rieni. Cafodd ei addysg mewn ysgol breifat ger Bergen i wella ei wybodaeth o'r iaith Norwyeg (rhaid bod ei rieni wedi bod yn berchen ar lawer o geirw!). Roedd deigryn yn ei lygad wrth gofio'r profiad hwn, gan awgrymu y byddai wedi bod yn well ganddo fagwraeth Sámi go iawn.

Eira, ysbryd a sofraniaeth sy'n llunio dyfodol pobl y Sámi, gyda'i wreiddiau mewn traddodiad a gwydnwch – gan gydbwyso traddodiadau diwylliannol â heriau modern. Maen nhw'n gymuned frodorol hanfodol a'u cyfraniadau diwylliannol, ieithyddol ac ecolegol yn haeddu cefnogaeth barhaus. Maen nhw'n bobl ddygn sy'n cynnig gwersi parhaol mewn byw'n gynaliadwy a'r hawl i benderfynu drostyn nhw eu hunain.

**Rod Williams**


**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130


## Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Tachwedd, cafodd yr aelodau weld y sgrin fawr yn yr Ystafelloedd Coco yn cael ei defnyddio. Dangoswyd rhaglen deledu iddyn nhw a recordiwyd yn 2001, pan ddaeth y cogydd Dudley Newbery i goginio ar gyfer parti haf gofalaeth y diweddar Parch. Wayne Roberts, yng Nghapel y Dyffryn. Roedd 120 yn bresennol yn y digwyddiad, ac roedd hi'n hyfryd gweld wynebau cyfarwydd – rhai wedi'n gadael ni, yn anffodus, a'r plant yn oedolion erbyn hyn.

Anfonwyd cofion at Jack Palin a dymuno gwellhad buan iddo, a dymunwyd pen blwydd hapus i Buddug yn 96 oed. Gobeithiwn ei gweld hi yn ôl yn ein plith cyn bo hir. Mae'r clwb yn edrych ymlaen at y cinio Nadolig blynyddol yn y Drovers, Rhewl.

Bydd yr Ystafelloedd Coco ar agor bnawn dydd Mawrth, 9 Rhagfyr am 2 o'r gloch – croeso i unrhyw un alw heibio am baned a sgwrs.

---

**O'r *North Wales Chronicle and Advertiser*, 21 Rhagfyr 1867**

Daeth dau garcharor parchus eu golwg o'r enw David Parry a William Salisbury i'r llys o flaen W. Douglas, Ysw., Percy Williams, Ysw., a'r Parch. D. Roberts, ustusiaid y sir, ddydd Mercher, wedi'u cyhuddo o ddwyn dwy hwyaden. Cyfarfu PC Evans o Landyrnog â'r carcharorion y bore hwnnw tua chwech o'r gloch ar y brif ffordd o Langwyfan i Gaerwys. Edrychodd ar y bag a oedd yn eu meddiant a gweld bod ynddo ddwy hwyaden a oedd wedi'u lladd. Cyhuddodd yr heddwas nhw o ddwyn yr hwyaid. Cadarnhaodd Robert Davies, Rhiwbebyll, Llandyrnog mai eiddo ei dad oedd yr hwyaid, a thyngodd iddo'u gweld nhw yn fyw ar y fferm y prynhawn blaenorol. Plediodd y carcharorion yn euog a chafodd y ddau ddedfryd o dri mis o garchar gyda llafur caled.

# Gair gan yr offeiriad

Cawsom ni ein creu i berthyn i'n gilydd – i fyw mewn cymuned, mewn perthynas â Duw a gyda'n gilydd. Un ffordd o gyflawni'r teimlad yma o berthyn yw trwy un o fendithion mawr bywyd – cyfeillgarwch, p'un ai â phartner, rhiant, plentyn, neu rywun dydych chi ddim yn perthyn iddo. Gyda ffrindiau da, dydych chi fyth ar eich pen eich hun. Maen nhw yno i chi bob amser ac yn falch o rannu llawenydd a thristwch bywyd. Nhw ydy'r rhai sy'n eich adnabod chi go iawn ac yn dal i'ch hoffi chi ac yn hoffi bod yn eich cwmni. P'run ai a ydych chi'n cytuno ar bob peth ai peidio, maen nhw yn eich cynnal chi pan fyddwch chi'n iawn, a phan fyddwch chi'n anghywir hefyd. Ddim yn cytuno bob tro, ond yno i chi bob amser.

Cyn i Iesu ddod i'r byd, dim ond dau unigolyn oedd yn ffrind i Dduw – Moses (Exodus 33:11) 'Byddai'r Arglwydd yn siarad â Moses wyneb yn wyneb, fel y bydd rhywun yn siarad â'i gyfaill'; ac Abraham (Eseia 41:8), 'Ti, Jacob, a ddewisais, had Abraham, f'anwylyd.' Ond yn yr efengyl yn ôl Ioan,15:14 mae Iesu'n dweud: 'Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn i chwi.' Mae pawb sy'n credu ac yn ymateb i Iesu yn perthyn iddo mewn cyfeillgarwch diddiwedd. Ac eto mae'r cyfeillgarwch, y perthyn hwn, mor ddwfn, fe roddodd ei fywyd drosom ni. Mae Ioan, 15:13 yn dweud, 'Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion.'

Darllenais yn ddiweddar ddywediad a oedd yn canu cloch go iawn gyda mi, gan athronydd o wlad Groeg, Plutarch, felly mae'n siŵr y gallwch ddyfalu fy mod i wedi dod ar ei draws yn hollol ddamweiniol. 'Does dim angen ffrind arna i sy'n newid pan fydda i'n newid ac yn nodio'i ben pan fydda i'n nodio fy mhen – mae fy nghysgod yn gwneud hynny'n well o lawer'. Ac mae'n wir, on'd ydy hi, bod angen i'n ffrindiau fod yn onest gyda ni, nid ddim ond yn dweud y pethe maen nhw'n meddwl rydyn i am eu clywed.

Dyma'r math o gyfaill yw Iesu – fydd o fyth yn ein gadael ni, mae'n eiriol droson ni o flaen y Tad ac yn cyflenwi ein holl anghenion. Mae'n maddau ein pechodau, yn deall ein tristwch ac yn raslon ar adegau o drybini. Ond dydy o ddim yn dweud wrthyn ni beth rydyn ni am ei glywed. Mae llawer o'r hyn a ddysgodd Iesu i ni yn anodd ei dderbyn. Mae'r deyrnas y mae'n sôn amdani yn anodd ei deall, gyda'r rhai addfwyn yn etifeddu'r ddaear a'r cyntaf yn olaf. Mae hi'n gymaint o fraint o gael fy ngalw i fod yn gyfaill i'r un a fy nghreodd i, yr un sydd yn fy ngharu i ac a roddodd cymaint fel ein bod yn gallu bod gyda'n gilydd am byth.

Roedd Gwasanaeth Sul y Cofio yn Llandyrnog yn adeg i bawb ddod at ei gilydd wrth i ni gofio'r rheini a roddodd eu bywydau er mwyn eraill, a'r cyfeillion a'r perthnasau hynny roedden nhw wedi'u gadael ar eu holau. Wrth gofio'u haberth, rydyn ni'n cadarnhau ein dyhead i'r byd fyw yn heddychlon, ac yn ein hatgoffa bod y rheini sy'n derbyn Iesu fel cyfaill a gwaredwr yn methu gadael ei ofal.

Mae'r adnod hwn o Eseia yn dweud wrthyn ni yn union pwy rydyn ni'n perthyn iddo. Yr Arglwydd a'th luniodd, Israel: 'Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw, eiddof fi ydwyt.' Wedi dy waredu, dy achub, dy ryddhau. Mae perthyn a chyfeillgarwch yn golygu rhoi gwerth ar rywun arall. Felly, dewch i ni weithio ar ein cyfeillgarwch â'r rheini rydyn ni'n eu caru, yn dangos iddyn nhw gymaint rydyn ni'n eu gwerthfawrogi nhw, a sut y gallwn fod yn fwy cyfeillgar wrth ein planed – dangos cymaint rydyn ni'n rhoi gwerth ar y cyfan y mae ein Duw wedi'i greu, y cyfan sy'n perthyn i Dduw. Amen.

*Juliet Fraser*

# Tŷ Ceffyl Bach

Ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer eich siopa Nadolig? Ewch i Dŷ Ceffyl Bach am ddewis eang o anrhegion gan y rhain:

Graham Hughes, gof – Llandyrnog

Copperlode – Helen Murphy, Llandyrnog

Vale Crafts – Garry Hession, Llanynys

Julia Jones, artist lleol – Dinbych

Karen Parkinson, artist lleol – Rhuthun

Crochenwaith Earthworks – Llanelwy

Glass in the Shed – Jim, Swydd Gaer

Wales Wood Worker – Arwel, Llanrhaeadr

Flower Garden Florist – Catherine, Llanrhaeadr

Two Sheep Soapery – Iwerddon

Celf o'r Galon – Ynys Môn

Crefftau Kate Carmen – Gellifor

Ffyn cerdded – Clive, Gellifor

Jan Wilson-Chalon, ffotograffydd – Hendrerwydd

Crefft gan Julie R (*découpage*) – Llandrillo yn Rhos

Cornucopia, doliau ŷd – Collette, Bodfari

Sanau Rosie – Wrecsam

Crefftau Jenny, nyddu gwlân a gwehyddu – Llanelwy

Mêl Dyserth – Mr S. Thomas, Dyserth

Heather Hats and Accessories – Penrith




















**TY CEFFYL BACH**

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**



# Neges gan y Cynghorydd Sir

Dymunaf Nadolig llawn a chynnes iawn i holl drigolion Llandyrnog a'r cyffiniau. Yr adeg hon o'r flwyddyn, ewch i weld eich cymdogion sydd efallai'n byw ar eu pen eu hunain; gall sgwrs fach neu ddim ond galw i weld a ydyn nhw'n iawn wneud byd o wahaniaeth.

Rwy'n diolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr sy'n gwneud Llandyrnog yn lle mor wych i fyw ynddo: tîm y Llais, pawb sy'n ymwneud â'r siop, y rheini sy'n rhedeg ein boreau coffi, yn gofalu am flodau'r pentre, yn cadw'r fynwent yn daclus, a'r rhai ymroddedig sy'n trefnu'r sioe flodau a'r gymdeithas hanes, heb anghofio ein Cynghorwyr Cymuned ymroddedig a'r Clerc, Bryn. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch gwaith yn fawr iawn a fyddwn ni byth yn ei gymryd yn ganiataol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

**Y Cyngh. Merfyn Parry**


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*


## *Cyfarchion y Nadolig*

Dymuniadau gorau i fy nghymdogion a fy ffrindiau dros yr ŵyl – Margaret, Awel y Foel.

Nadolig Llawen i bawb yn y pentre gan Wyn Wilson, Moelfa.

Mae Bryn ac Anwen yn dymuno Nadolig Llawen i'n holl ffrindiau yn y pentref.


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- **Tanalised timber**
- **Concrete posts**
- **Panel fencing**
- **Water pipe fittings**
- **Water tanks**
- **Sand**
- **Cement**
- **Concrete blocks**

# Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Huw Jones MBE o Gwmni Peirianneg Sifil Jones Bros a gafodd Gymrodoriaeth Anrhydeddus o Brifysgol Wrecsam. Roedd y wobr hon yn cydnabod ei wasanaeth i fusnes yng Ngogledd Cymru a pheirianneg werdd.

---

**Gwobr arall i Winllan y Dyffryn**

Aeth Rhys i seremoni wobrwyo flynyddol Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru yn ddiweddar ac enillodd wobr y gwin gwyn gorau am Solaris 2023 Gwinllan y Dyffryn! Dyma lun o Rhys yn cael y wobr gan ei arwr, Os Clarke, a oedd yn un o'r beirniaid. Diolch i gwmni Levercliff am noddi'r dosbarth hwn ac i'r tîm talentog sy'n gwneud y gwin, Halfpenny Green Wine Estate. Bydd angen mwy o le arnoch chi cyn bo hir i ddall yr holl wobrau yma cyn bo hir!



---

Cyflawnodd Catrin Johnson, Tandderwen gynt a merch y diweddar Meirion a Gwyneth Parry, dipyn o gamp noson Plant Mewn Angen. Gweithiodd dros nos fel torrwr lluniau yn stiwdio BBC Caerdydd, ar ddarllediad dawnsathon 24-awr Radio Cymru. Dywed Catrin bod Trystan ac Emma, y dawnswyr, yn arwyr – ond mae Catrin yn haeddu tipyn o glod hefyd!



---

Llongyfarchiadau i Gwenan Lloyd a Mabon Evans ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant. Roedd Beth Lloyd, Penybryn gynt, hefyd wedi bod yn llwyddiannus gyda phartïon o Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i Bryn Davies ar lwyddo yn y prawf theori reidio motobeic yn ddiweddar. Y prawf ymarferol nesa – gwyliwch, bawb!

Llongyfarchiadau i Anna, Hen Gapel, a Leusa Jên, Llys y Deri, ar lwyddo yn eu harholiadau Theatr Gerdd – Anna wedi pasio Gradd 4 a Leusa wedi pasio Gradd 2 gyda rhagoriaeth.

# Ysgol Bryn Clwyd

Bydd ein cyngerdd Nadolig yng ngolau cannwyll nos Fawrth, 16 Rhagfyr am 5.30 yn Neuadd y Pentre. Does dim tâl mynediad ac mae croeso i bawb o'r pentre ymuno â ni.





Mae mis Tachwedd wedi hedfan heibio yn Bryn Clwyd. Dechreuodd Dosbarth Tyfu y mis gydag ymweliad â'r jamborî cerddoriaeth Gymraeg yn Rhuthun. Maent hefyd wedi bod yn gwneud llawer o ymchwiliadau gwyddonol ymarferol, ac mae'r Meithrin bellach wedi ymgartrefu'n llawn yn y dosbarth ac wrth eu boddau'n chwarae yn y gornel gartref.



Rydym hefyd yn falch iawn ein bod wedi codi bron i £100 ar gyfer Plant mewn Angen drwy ein diwrnod gwisgo pyjamas.

# Ysgol Bryn Clwyd: parhad



Daeth Dosbarth Hedfan â'u pwnc gofod i ben gyda rhai darnau o gelf hardd iawn ac maent wedi mwynhau ymweliadau gan Ambiwlans St John a Cherdd Cydweithredol Sir Ddinbych.





# Cyngor Cymuned Llandyrnog

**Nodiadau o gyfarfod 18 Tachwedd**

- Roedd y Plismon Cymunedol yn methu bod yn bresennol, ond roedd wedi anfon adroddiad am y digwyddiadau canlynol a gafodd eu reportio i'r heddlu:
    - plentyn ifanc iawn ar goll – cafwyd hyd iddo yn fuan wedyn
    - bygythiad y tu allan i'r dafarn – cwyn ffurfiol heb ei wneud
    - tarfu oherwydd sŵn – pobl yn gadael y parti wrth i'r heddlu gyrraedd
    - ymosodiad rhwng dau blentyn – yr ymchwiliad yn parhau

  Roedd y Cyngor yn siomedig iawn nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gallu gwneud dim byd ynglŷn â'r parcio ar y gyffordd wrth Clwydfryn/Gladstone Terrace. Ar ôl ymweld â'r man, doedden nhw ddim yn siŵr a oedd y cerbydau a oedd wedi parcio yno yn achosi rhwystr ai peidio. Ond mae bysiau yn cael anhawster i droi'r gornel ar adegau a bydd y Cyngor yn dal i godi'r mater. Roedd pryderon gwirioneddol am allu cerbydau tân ac achub neu gerbydau gwasanaethau brys eraill i droi wrth y gyffordd. Y gobaith yw y bydd y trigolion yn fwy ystyrlon yn y dyfodol ac yn chwilio am rywle arall i barcio er mwyn i'r traffig lifo'n rhwydd.

- Daeth Sam Langdon o dîm bioamrywiaeth Un Llais Cymru i'r cyfarfod gan roi braslun o ofynion statudol cynllun bioamrywiaeth y bydd angen i'r Cyngor ei gyflwyno. Bydd rhaid ystyried bioamrywiaeth cyn penderfynu ar ddim byd a rhaid i'r cyngor baratoi cynllun ac wedi hynny adroddiad am lwyddiannau yn erbyn y cynllun. Y farn oedd bod y Cyngor Cymuned eisoes yn rhagweithiol yn y maes hwn ac yn ddiolchgar am y cyngor ar sut i osod y cynllun.
- Roedd y Tîm Atal Troseddu wedi cynnig pecynnau SmartWater i'r Cyngor; bydd y Clerc yn holi am y gost a'r manteision.
- Penderfynwyd archebu coeden Nadolig a gofyn i'r Eglwys am ganiatâd i'w gosod o'i blaen. Diolch i Archie a Carol Davies am ei noddi, ac i David am ei nôl a'i chodi.
- Mae ystafell uchaf yr Ystafelloedd Coco wedi'i gwacáu a chynigiwyd y cadeiriau bach a oedd yno i'r ysgol.
- Bydd teclyn newydd i wresogi dŵr yn cael ei osod yn yr Ystafelloedd Coco – mae'r un presennol wedi torri a dydy hi ddim yn bosibei drwsio.
- Cafwyd adroddiad bod y cais i'r Loteri Genedlaethol tuag at offer chwarae hygyrch yng Nghae Nant wedi bod yn llwyddiannus a bydd £20,000 yn dod i'r Cyngor. Mae cais am £10,000 arall ar y gweill – hyn i'w gadarnhau. Diolchwyd yn ddiffuant iawn i'r Cyngh Morris am wneud y cais ac am y canlyniad llwyddiannus.


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**